

Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth

Mae mwynhau cerddoriaeth yn gwella ein hiechyd a'n lles. Rydyn ni eisiau i holl blant a phobl ifanc Cymru allu chwarae, canu, cymryd rhan a chreu cerddoriaeth.

Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd, rydyn ni wedi ysgrifennu **Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth**. Bydd sefydliadau ledled Cymru yn cydweithio ar y cynllun hwn.

Bydd y canllaw hwn yn dweud wrthydd chi sut y bydd plant a phobl ifanc o bob cefndir yn gallu gwneud y gorau o'n diwylliant, ein treftadaeth a'n cymunedau ledled Cymru a thu hwnt.

Pan fyddwn ni'n siarad am blant a phobl ifanc yn y canllaw hwn, rydyn ni'n golygu chi, eich ffrindiau a phob plentyn a pherson ifanc.



Pam rydyn ni wedi ysgrifennu cynllun?

Mae addysg cerddoriaeth yn bwysig mewn nifer o ffyrdd. Rydyn ni eisiau i chi ddysgu am gerddoriaeth a chymryd rhan ynddo:

- mewn ysgolion a lleoliadau
- yn eich cymuned, y tu allan i ysgolion a lleoliadau
- i archwilio cerddoriaeth fel gyrfa, ar gyfer astudio ac am oes
- gydag athrawon cerdd o bob cymuned
- i helpu eich iechyd a lles.

Er mwyn ein helpu i wneud hyn, bydd **Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol** newydd. Fe fydd yn gweithio gyda sefydliadau eraill i'w wneud yn deg, fel bod pawb yn cael cyfle cyfartal i chwarae, canu, cymryd rhan a chreu cerddoriaeth.

Efallai y byddwch chi angen:

- cymorth ychwanegol i fforddio offerynnau, gwersi neu deithio
- cymorth ychwanegol os yw'n anodd dod o hyd i weithgareddau cerddoriaeth neu wersi oherwydd ble rydych chi'n byw
- offerynnau arbennig neu help gyda dysgu i weddu i'ch anghenion.



Waeth pwy ydych chi, ble rydych chi'n byw, o ba gymuned rydych chi'n dod neu ble rydych chi'n dysgu, byddwch chi a phob plentyn a pherson ifanc yn cael yr un cyfleoedd i fwynhau cerddoriaeth.

Bydd gan y gwasanaeth cerddoriaeth **lyfrgell offerynnau, adnoddau a chyfarpar genedlaethol** i wneud yn siŵr bod gennych chi'r offerynnau a'r cyfarpar sydd eu hangen arnoch chi.

Byddwn ni hefyd yn **hyfforddi ein hathrawon gwasanaeth cerddoriaeth** fel y gallan nhw helpu eich athrawon ysgol i gyflwyno gweithgareddau cerddoriaeth.

Fel rhan o'n cynllun, byddwn ni'n datblygu rhaglenni gwaith i'ch helpu i ddysgu cerddoriaeth. Mae rhai mewn ysgolion a lleoliadau a rhai y tu allan i'r ysgol a lleoliadau.



Cerddoriaeth mewn ysgolion

Mewn ysgolion a lleoliadau, bydd gwahanol ffyrdd o ddysgu am greu cerddoriaeth a chymryd rhan mewn perfformiadau a phrofiadau cerddorol. Rydyn ni wedi disgrifio nifer o raglenni a fydd yn cael eu cyflwyno gan y gwasanaeth cerddoriaeth yn eich ysgolion a lleoliadau.

Mae **Profiadau cyntaf** i bawb rhwng 3 ac 11 oed. Bydd gweithgareddau cerddorol i'ch ysbrydoli a all helpu eich iechyd a'ch lles a gwneud i chi deimlo'n fwy hyderus. Bydd cyfleoedd i:

- chwarae offerynnau, canu, gwneud cerddoriaeth a defnyddio technoleg
- dysgu sgiliau cerddorol
- dysgu am amrywiaeth eang o gerddoriaeth o Gymru ac o gwmpas y byd.

Mae **Profiadau o gerddoriaeth fyw** ar gyfer pawb rhwng 3 ac 16 oed. Gall cerddoriaeth fyw helpu eich hyder a'ch lles, a gallai wneud i chi feddwl am yrfa mewn cerddoriaeth. Byddwch chi'n gallu:

- dysgu am gerddoriaeth a'i dathlu yn yr ysgol a thu allan
- profi perfformiadau byw a digidol
- cymryd rhan mewn perfformiadau cerddorol
- chwarae cerddoriaeth gyda phobl ifanc eraill a cherddorion
- darganfod mwy am astudiaeth bellach ac ystyried cerddoriaeth fel gyrfa.

Mae **Gwersi cerdd** ar gyfer pawb rhwng 3 ac 16 oed. Mae gwersi yn rhan bwysig o ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau i fwynhau cerddoriaeth neu ei gwneud yn yrfa. Bydd:

- dewis eang o gerddoriaeth, cerddorion, offerynnau a chyfarpar i ddysgu ganddyn nhw
- mynediad at wasanaethau cerddoriaeth ym mhob rhan o Gymru
- gwersi cerdd i ddysgu a defnyddio offeryn neu gyfarpar os oes ei angen arnoch chi
- cyfle i weithio gyda cherddorion o wahanol gymunedau
- mynediad at wersi waeth ble yng Nghymru rydych chi'n byw – weithiau gallai hyn olygu dysgu ar-lein.



Mae **Llwybrau cerddoriaeth** ar gyfer pawb 11 i 16 oed. Mae'n bwysig i bob person ifanc gael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau mewn cerddoriaeth. Gallai hyn fod er mwyn mwynhau cerddoriaeth, ar gyfer eich iechyd a'ch lles, neu i'ch helpu i ddysgu sut beth yw gweithio yn y diwydiannau creadigol. Byddwch chi'n:

- cael cyfle i astudio canu neu offeryn cerdd
- gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddoriaeth
- cael dweud eich dweud am yr hyn rydych chi'n ei ddysgu
- cael cyfle i gymryd rhan mewn profiadau cerddorol, yn lleol ac ymhellach i ffwrdd
- gallu gwella eich gwybodaeth am theori cerddoriaeth
- dysgu am wahanol ffyrdd o wneud cerddoriaeth yn yrfa i chi.



Cerddoriaeth yn yr ysgol a thu allan i'r ysgol

Wrth eich cefnogi i ddysgu cerddoriaeth tu fewn a thu allan ysgolion, mae angen i ni helpu eich athrawon i gyflwyno gweithgareddau cerddoriaeth. Bydd hyn yn sicrhau bod y cynllun yn helpu ysgolion a lleoliadau i gyflwyno Cwricwlwm i Gymru.

Mae gwneud hyn yn golygu y bydd eich athrawon a'r gwasanaeth cerddoriaeth yn cydweithio i gyflwyno cerddoriaeth sy'n addas i chi. Bydd hyn yn eich helpu i wireddu pedwar diben Cwricwlwm i Gymru fel y gallwch chi ddod yn:

- ddysgwr uchelgeisiol, galluog sy'n barod i ddysgu gydol eich oes
- cyfrannwr mentrus, creadigol sy'n barod i chwarae rhan lawn mewn bywyd a gwaith
- dinesydd egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd
- unigolyn iach, hyderus sy'n barod i fyw bywyd cyflawn fel aelod gwerthfawr o gymdeithas.



Mae addysg cerddoriaeth yn perthyn i bawb. Dyna pam fod gennyn ni ein rhaglen **Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant**, a fydd yn helpu pawb ledled Cymru o bob cymuned deimlo'n gartrefol yn creu cerddoriaeth sy'n eu cynrychioli nhw. Er mwyn gwneud i hyn ddigwydd, rydyn ni angen i athrawon cerdd yn y dyfodol edrych a swnio fel y gymdeithas gyfan. Bydd:

- cyfleoedd i chi a'ch ffrindiau o bob cefndir gael dweud eich dweud am ba wersi a gweithgareddau cerdd sy'n cael eu cynnig a gallwn ni ei addasu ar gyfer eich anghenion chi
- mwy o gydweithio ar draws eich cymuned gerddoriaeth
- mwy o gyfleoedd i ddathlu diwylliant Cymru a diwylliannau eraill mewn perfformiadau
- amrywiaeth fwy o gerddorion yn cydweithio, a dewisiadau o gerddoriaeth.

Mae gennyn ni y rhaglen **Cerddoriaeth ar gyfer dysgu gydol oes, iechyd a lles** sy'n eich helpu i feithrin sgiliau bywyd, fel dangos emosiynau a dod yn fwy hyderus. Bydd cyfleoedd i chi:

- chwarae mewn grwpiau neu ensembles
- gwneud eich cerddoriaeth eich hun
- mynd i stiwdios neu leoliadau recordio
- cymryd rhan mewn digwyddiadau a gwyliau cenedlaethol a rhyngwladol
- perfformio gyda cherddorion proffesiynol.



Cerddoriaeth y tu allan i'r ysgol

Bydd ein cynllun yn eich helpu i ddysgu cerddoriaeth y tu allan i'r ysgol.

Mae Cymru yn adnabyddus am dalent cerddorol. Trwy ein rhaglen **Creu cerddoriaeth gydag eraill – gweithgareddau cerddorol ac ensembles**, byddwn ni'n creu corau, bandiau ac ensembles yn yr ysgol, yn y gymuned, ac ar draws Cymru. Byddwch chi'n gallu:

- defnyddio eich llais i benderfynu pa fath o gerddoriaeth sy'n cael ei gynig i chi a'ch gymuned
- perfformio'n gyhoeddus
- cymryd rhan mewn gweithgareddau cerdd lleol
- dod o hyd i help ychwanegol gyda chostau cymryd rhan neu deithio
- dod o hyd i help ychwanegol os oes angen offeryn arbennig arnoch chi, neu os oes gennych chi anghenion dysgu ychwanegol
- cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n cynrychioli Cymru.


Mae gennyn ni hefyd raglen **Creu cerddoriaeth gydag eraill – y diwydiannau perfformio a chreadigol** all eich helpu i feddwl am gerddoriaeth fel gyrfa. Byddwch chi'n cael cyfle i:

- berfformio yn Gymraeg a Saesneg, yn ogystal ag ieithoedd eraill os ydych chi'n eu siarad
- dod i wybod am gyfleoedd i gymryd rhan a pherfformio, yn eich ysgol, gymuned leol, ledled Cymru a'r byd
- dod i wybod am yrfaeod trwy greu, recordio a chynhyrchu cerddoriaeth
- cymryd rhan mewn perfformiadau boed hynny yn eich ardal leol neu yn rhywle arall ar draws Cymru a gwledydd eraill
- dod o hyd i wybodaeth am stiwdios recordio a mannau eraill i greu cerddoriaeth
- darganfod mwy am astudio mewn addysg uwch neu sut i gael gyrfa mewn cerddoriaeth a'r diwydiannau creadigol.



Ewch i'n gwefan i ddarllen fersiwn llawn y

Cynllun Cenedlaethol ar gyfer Addysg Cerddoriaeth.



llyw.cymru/cynllun-cenedlaethol-ar-gyfer-addysg-cerddoriaeth